

Polisi Bagiau Tywod

Polisi ar gyfer dosbarthu bagiau tywod yn Sir Gaerfyrddin
yn ystod llifogydd.

Medi 2022

1. Camau ymarferol i berchnogion eiddo

- 1.1 Pan fydd eich cartref neu eich busnes mewn perygl o lifogydd, mae nifer o gamau y dylech eu cymryd i amddiffyn eich eiddo. Mae deall eich perygl o lifogydd yn hollbwysig, ac mae gwybodaeth ar gael gan yr Awdurdod hwn a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- 1.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu mapiau llifogydd sy'n tynnu sylw at ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd llanw, llifogydd afonydd a/neu lifogydd dŵr wyneb. Gellir gweld y wybodaeth hon yma: [mapiau llifogydd CNC](#). Yn ogystal, mae gwasanaeth rhybuddio am lifogydd yn cael ei ddarparu gan CNC. Rhybudd awtomataidd yw hwn, a anfonir dros y ffôn neu drwy neges destun, pan ragwelir llifogydd afon. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, gweler [rhybuddion llifogydd CNC](#).
- 1.3 Er mwyn helpu perchnogion tai a busnesau ymhellach i asesu eu perygl o lifogydd, rydym wedi datblygu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin sy'n tynnu sylw at y risg o ddŵr wyneb a chysiau dŵr cyffredin. Gellir gweld hyn yn [FRMP rhan-1](#). Yn ogystal, rydym wedi nodi 50 o ardaloedd risg uchel sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd. Gelwir y meysydd hyn yn 'feysydd unedau polisi' a gellir eu gweld yn [FRMP rhan-2](#).
- 1.4 Mae perchnogion eiddo a busnesau sydd â hanes o lifogydd neu sy'n cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd felly yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu risg o lifogydd a'i reoli hynny yn unol â hynny. Bydd angen i chi nodi pwyntiau mynediad dŵr i'ch cartref a/neu fusnes. Os bydd llifogydd, byddwch wedyn yn ymwybodol o'r angen i rwystro drysau, draeniau, fentiau ac agoriadau eraill yn erbyn dŵr ac ailgyfeirio llif y dŵr lle gallwch. Argymhellir bod yr eiddo a'r busnesau hyn yn gosod mesurau amddiffyn rhag llifogydd a/neu fesurau amddiffyn ar lefel eiddo, yn cofrestru ar gyfer rhybuddion llifogydd CNC, ac yn datblygu cynllun lliniaru llifogydd fel bod ganddynt strategaeth ymarferol ar waith ar gyfer llifogydd.
- 1.5 Ceir gwybodaeth am amddiffyn eich eiddo neu eich busnes rhag llifogydd, mesurau amddiffyn a pharatoi ar gyfer llifogydd drwy ddilyn y dolenni canlynol

- [The Homeowners Guide to Property Flood Resilience](#) ac;
- [A Business Guide to Flood Resilience](#)

Mae'r ddau'n cynnwys crynodeb defnyddiol o gyflenwyr a chynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd yn y cartref sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae cyflenwyr lleol yn cynnwys Floodgate Ltd yng Nghaerfyrddin, MM Engineering ym Mhort Talbot, Screwfix yng Nghaerfyrddin ac Abertawe, a B&Q yng Nghaerfyrddin, Llanelli ac Abertawe.

2. Bagiau tywod

- 2.1 Mae bagiau tywod wedi cael eu defnyddio dros nifer o flynyddoedd fel modd o rwystro pwyntiau mynediad ac ailgyfeirio llifogydd isel i ffwrdd o eiddo a busnesau. Fe'u defnyddir orau fel mesur argyfwng gan y gallant gadw cyfaint isel o ddŵr llifogydd allan o eiddo am gyfnodau byr ac ailgyfeirio llif bas. Felly, mae bagiau tywod o ddefnydd cyfyngedig fel dull effeithiol hirdymor o ran bod yn barod am lifogydd, eu lliniaru a'u hatal, ac felly dylid eu defnyddio mewn sefyllfaoedd brys yn unig.

- 2.2 Er y gall bagiau tywod fod yn ddefnyddiol mewn argyfwng, mae ganddynt swyddogaeth gyfyngedig yn ystod digwyddiadau llifogydd, mae eu heffeithiolrwydd yn erbyn dŵr llifogydd dyfnach a dŵr sefydlog yn ddadleuol ac mae astudiaethau diweddar wedi tynnu sylw at eu cyfyngiadau. Dim ond meintiau bach o ddŵr y byddant yn eu hatal. Maent yn drwm ac yn lletchwith i'w defnyddio, yn gollwng dŵr, yn cronni llygryddion, yn dirywio dros amser ac yn anodd eu gwaredu. Mae llawer o erthyglau ac astudiaethau ar-lein yn cefnogi'r safbwynt hwn, cyfeirir at rai o'r wybodaeth hon isod:
 - [Manteision dewisiadau amgen bagiau tywod - UK Flood Defence Alliance](#)
 - [Cymharu bagiau tywod a rhwystrau llifogydd plastig \(www.safesitefacilities.co.uk\)](#)
 - [Profion Llabordy a Gwerthuso Rhwystrau Llifogydd Addas, \(nrc.gov\)](#)

- 2.3 O safbwynt perchennog eiddo a busnes, gweithredu mesurau amddiffyn rhag llifogydd, mesurau amddiffyn ar lefel eiddo a chynllun llifogydd yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r difrod yn sgil llifogydd. Heb unrhyw fesurau o'r fath, fel ateb dros dro tymor byr yn unig, anogir perchnogion eiddo a busnesau sydd mewn perygl i gadw eu stoc eu hunain o fagiau tywod gwag lle bo'n bosibl, neu ddewisiadau amgen, ynghyd â stociau digonol o dywod i lenwi'r bagiau ar adegau o lifogydd posibl. Gall y

rhan fwyaf o siopau DIY ddarparu bagiau tywod a thywod yn rhwydd ac mae dewisiadau amgen ar gael gan nifer o ddarparwyr lleol ac ar-lein.

- 2.4 Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio bagiau tywod lle gallant fod yn effeithiol ar sail argyfwng dros dro yn ystod llifogydd i ailgyfeirio dŵr bas yn bennaf mewn cysylltiad â'i asedau priffyrdd ac isadeiledd ei hun.

3. Dewisiadau amgen i fagiau tywod

- 3.1 Er y gall bagiau tywod traddodiadol fod yn ddefnyddiol yn y tymor byr yn ystod llifogydd, maent yn gymharol aneffeithiol o'u cymharu â dewisiadau amgen modern sy'n cynnwys:

Nod **Rhwystrau Llifogydd** yw rhwystro'r bylchau bach o dan ddrysau blaen a chefn. Gellir




prynu ac ôl-osod y rhain i bron unrhyw ddrws eiddo presennol. Wrth gael eu gosod yn eu lle maent yn creu sêl gwrth-ddŵr, sy'n gallu bod yn effeithiol iawn os nad yw'r dŵr llifogydd yn codi'n rhy uchel.

Gellir gosod **Drysau/Ffenestri Llifogydd** yn hytrach na drysau a ffenestri allanol safonol neu PVC. Mae'r rhain yn gweithredu fel drysau/ffenestri arferol a gallant amddiffyn eiddo rhag dŵr llifogydd hyd at tua metr o ddyfnder.





Bagiau llawn gel – mae'r rhain yn debyg i fagiau tywod traddodiadol ond maent yn cael eu llenwi â gel. Ar ôl eu gosod yn eu lle, bydd pob bag yn amsugno bron 20 litr o ddŵr ac yn chwyddo, gan ffurfio rhwystr yn erbyn dŵr llifogydd. Maent yn hawdd i'w storio, eu trin a'u gosod, gan eu bod yn ysgafn ac yn hawdd eu pentyrru pan yn sych. Gellir ailddefnyddio rhai bagiau llawn gel; gellir agor eraill yn hawdd ac mae'r deunyddiau, sy'n gydnaws â'r amgylchedd, yn gallu cael eu gwaredu'n ddiogel yn y pridd*.



*-gweler canllawiau'r gwneuthurwr ynghylch ailddefnyddio a gwaredu.

Mae **Briciau Aer Gwrth-Lifogydd** yn cael eu hôl-osod i gymryd lle briciau aer presennol. Y rhan fwyaf o'r amser maent yn gweithredu fel briciau aer arferol, ond pan fyddant yn gwlychu mae sêl gwrth-ddŵr yn cael ei ffurfio, ac maent yn cael eu blocio'n effeithiol, gan atal dŵr rhag mynd i eiddo drwy'r llwybr hwn.

Cloriau/Rhwystrau ar gyfer Fentiau Cyfarpar neu Friciau Aer mae llawer o ddyluniadau ar gael sy'n rhad, yn anymwthiol, a bydd yn rhwystro dŵr llifogydd sy'n mynd i mewn i eiddo trwy'r pwyntiau mynediad hyn.

4. Ein hymateb i lifogydd

- 4.1 Wrth ymateb i lifogydd bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu lifogydd sy'n tarddu o'r briffordd neu asedau eraill sy'n eiddo i'r Cyngor, a ffynonellau nad ydynt yn brif afonydd. ([Mae'r Prif Afonydd yn cael eu llywodraethu gan Gyfoeth Naturiol Cymru.](#)) Gall yr ymateb hwn gynnwys defnyddio dewisiadau amgen i fagiau tywod neu fagiau tywod ar y ddaear. Os bydd tywydd garw a lle mae perygl gwirioneddol o lifogydd byddwn yn rheoli cyflenwadau bagiau tywod neu ddewisiadau amgen mewn lleoliadau/safleoedd strategol a nodwyd ymlaen llaw.
- 4.2 Ni fydd perchnogion busnes/eiddo neu aelodau'r cyhoedd yn cael casglu bagiau tywod yn uniongyrchol gan unrhyw un o ddepos y cyngor. Mae hyn am resymau diogelwch.
- 4.3 Bydd tua 40 o fagiau tywod (1 paled) neu ddewisiadau amgen yn cael eu dosbarthu i safleoedd strategol o amgylch y sir yn union cyn storm, a gall busnesau a phreswylwyr CSC eu casglu yn ôl y gofyn. Cyfrifoldeb perchennog y cartref neu'r busnes fydd gwaredu bagiau tywod yn dilyn hynny. Ni ellir dosbarthu bagiau tywod i eiddo a busnesau unigol ymlaen llaw.
- 4.4 Bydd ein Swyddog y Wasg yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn amlinellu'r polisi bagiau tywod a'r lleoliadau strategol ar ddechrau'r Hydref bob blwyddyn. Bydd y lleoliadau dosbarthu bagiau tywod strategol yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gellir ychwanegu safleoedd newydd neu ddileu safleoedd presennol ar unrhyw adeg ar sail risgiau neu gamau gweithredu penodol, yn unol â chytundeb Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

- 4.5 Dylid nodi bod y ddarpariaeth bagiau tywod yn y safleoedd gollwng bagiau tywod a nodwyd yn cynnwys cyflenwad cyfyngedig ar gyfer yr eiddo hynny yng nghyffiniau'r ardal a nodwyd fel adnodd ychwanegol i unrhyw drefniadau y dylai perchnogion eiddo unigol eu gwneud. Mae ymateb y Cyngor yn ystod storm yn cael ei flaenoriaethu yn ôl risg. Mae diogelu bywyd yn hollbwysig, ynghyd â diogelu ein hasedau a'n seilwaith allweddol yn y broses o gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Rhaid i'r agweddau hyn o ddelio ag argyfyngau fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd dyraniad bagiau tywod i'r lleoliadau strategol yn seiliedig ar y broses flaenoriaethu hon. Felly, ni ddylai perchnogion eiddo ddibynnu ar y ddarpariaeth gyfyngedig hon, ond yn hytrach paratoi eu hamddiffynfeydd eu hunain.
- 4.6 Ni ddylid dibynnu'n llwyr ar y Cyngor i ddarparu cymorth yn ystod llifogydd. Fodd bynnag, bydd achlysuron lle mae llifogydd yn annisgwyl, neu'n effeithio ar ardaloedd newydd, a bydd y Cyngor yn helpu cyn belled ag y mae ei adnoddau'n caniatáu. Bydd unrhyw gymorth y mae'n ei ddarparu yn cael ei flaenoriaethu i ddiogelu ac achub bywydau, lleihau anafiadau a diogelu asedau ac eiddo strategol y cyngor.

5. Sut i roi gwybod am Llifogydd

- 5.1 **Dylid rhoi gwybod am bob achos o lifogydd.** Mae angen gwybodaeth gywir i sicrhau ein bod ni a'n sefydliadau partner (Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac ati) yn deall pwy sy'n dioddef llifogydd a difrifoldeb y llifogydd hynny. Gall peidio â rhoi gwybod am lifogydd olygu nad ydym yn ymwybodol o broblemau ac felly yn cyfyngu ar ein dealltwriaeth o berygl llifogydd. Mae hyn yn ei dro yn ein hatal rhag cael y wybodaeth angenrheidiol i helpu i reoli perygl llifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys risgiau a reolir gan sefydliadau partner.
- 5.2 Os yw'r llifogydd yn dod o'r ffordd, isafon neu nant fach, ei fod yn ddŵr wyneb neu ddŵr daear, neu os nad ydych yn siŵr o ble mae'r dŵr yn dod, gellir rhoi gwybod amdano ar-lein: [rhoi gwybod am lifogydd - CSC](#). Os nad yw hyn yn bosib gallwch ein ffonio ar 01267 234567. Mewn argyfwng, y tu allan i oriau swyddfa (dydd Llun i ddydd Gwener 08:30 – 18:00), ffoniwch Llesiant Delta ar 0300 333 2222. Bydd ymateb y Cyngor yn dibynnu ar yr amgylchiadau sy'n bodoli, ei flaenoriaethau cyfatebol ar y pryd a'r adnoddau sydd ar gael.

- 5.3 Os mai prif afon neu'r môr sy'n achosi'r lifogydd gallwch ffonio Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000 65 3000.
- 5.4 Os oes gennych brif bibellau dŵr yn gollwng neu lifogydd o garthffos gallwch ffonio Dŵr Cymru ar 0800 052 0130.

